# CAN O ALARNAD,

ER

*COFFADWRIAETH*

AM Y

# PARCH. EBENEZER MORRIS,

## BLAENYWERN,

YN SIR ABERTEIFI,

Yr hwn a ymadawodd â'r byd hwn, Awst 15, 1825,
yn 56 mlwydd oed.

## GAN EVAN REES.

*A gyhoeddwyd trwy gydsyniad Cyfarfod Misol Sir Aberteifi, a gyn[illegible]wyd yn Llanarth, Hydref 25 a 26, 1825.*

---

"Oni wyddoch chwi i dywysog ac i wr mawr syrthio heddyw yn Israel?" 2 Sam. iii. 38.

---

*ABERYSTWYTH,*

ARGRAFFWYD GAN ESTHER WILLIAMS.

1826.

I BA le 'r â' i fwrw 'ngalar,
Tra bwy' i'n rhodio daear lawr?
I ba le 'r â' i 'mofyn cysur?
Pur annifyr wyf fi 'nawr;
I ba le 'r âf i och'neidio,
Pan bwy' i'n cofio am fy mrawd,
*Ebenezer Morris* anwyl,
Sydd wedi syml ado'r cnawd?

2 Doed y môr i wylo dagrau,
Doed y clychau i roddi sain,
Boed i'r creigiau a'r mynyddau
Eilwaith ddadsain llef y rhai'n;
Doed y ser a'r holl blanedau,
Yn eu graddau, yn gytun,
I roi cymhorth im' awenu:---
Maent yn methu bob yr un.

3 Doed y brenin i alaru,
Doed y senedd oll o'r bron,
Collwyd deiliad o'r ffyddlonaf
Welwyd ar y ddaear hon:
Dros fawrhydi'r brenin byddai
Yn gweddïo'n syml iawn,
Dewr y safai dros ei gyfraith,
Mewn dysgybliaeth, fore a nawn.

4 De'wch bob oedran a phob graddau,
Rhowch eich tannau yn eu lle,
I alaru, gydâ'r cwmp'ni,
'Waith in' golli gwas y ne';
Nid un llawn o zel partïaeth,
Chwaith na gweniaeth cecraeth plaid,
Etto yn erbyn cyfeiliorni,
Nid oedd yn ofni d'weyd, wrth raid.

5 Fel y daran torodd allan,
Swnio fel yr arian wnaeth,
Pedair blwydd ar bumtheg ydoedd
Pan i'r gwaith, yn gyhoedd, aeth ;
Yn fuan aeth ei dad i huno,
Ca'dd yntau 'i wisgo, yn ei le,
Ag addurn gwell na mantell Aaron ;
Cafodd loywion arfau'r ne'.

6 I'r winllan ca'dd ei alw'n fore,
At ei dadau oedd o'i flaen,
Yno gweithiodd, yn ddi-ildio,
Nes machludo 'i haul yn lân ;
Bu yn ffyddlon yn ei ddiwrnod,
Gweithiwr difefl hynod oedd ;
Byddai'r dyrfa'n cael ei lloni,
Pan y safai fynu ar g'oedd.

7 Wrth ei wên siriolai'r werin,
Wrth ei daran crynent hwy,
Wrth dderchafu y Messia,
Canai'r dyrfa am ei glwy' ;
'R oedd ei lais fel udgorn arian,
'R oedd fel taran ar ryw bryd,
'R oedd fel tannau telyn Dafydd,
Nes yn ufudd fyn'd â 'mryd.

8 Seren o'r maintioli mwya'
Ydoedd yma yn ei ddydd,
Mawr ei ddawn a mawr ei ddefnydd,
Mawr ei gynydd, mawr ei ffydd ;
Mawr ei gariad at y brodyr,
Siriol, syml yn ei dy,
'R oedd ef yno'n llai na'r lleia'
Tra bu yma gydâ ni.

9 'R oedd ef yn ei deulu'n arglwydd,
'R oedd e'n llywydd yn mhob lle;
'R oedd e'n fawr heb ddim yn ormod,
Isel hynod yn ddible;
'R oedd e'n faban, 'r oedd e'n frenin,
Siampl i'w ddilyn ydoedd hwn,
Am ei fod 'n ol Iesu'n teithio,
Agos ato oedd, mi 'i gwn.

10 'R oedd e'n gwel'd yn graff fel eryr,
Ei synwyr fel y sarph yn gall,
A diniwed fel y g'lomen;
Fel b'ai'r angen, yn ddiball:
'R oedd ei ddoniau fel y clychau,
A'i felus byngciau helaeth, llawn;
Ei destun mawr anfeidrol ydoedd
Iesu a'i annhraethol ddawn.

11 Er mai llestr pridd oedd ganddo,
Cafodd ynddo drysor drud,
Anchwiliadwy olud Iesu,
Ar gyfer tlodi mawr y byd;
Harddwch mawr ei ddwyfol Berson,
A'i holl droion is y rhod,
Am ei swyddau a'i rinweddau,
Ac iddo byddai'n rhoddi'r clod.

12 Mae Eglwysi'r *Methodistiaid*,
Meibion, merched, yn gytun,
Gweinidogion a phregethwyr,
Yn alarwyr bob yr un;
Ie'ngctid luoedd, wrth y cannoedd,
A'r sabothol ysgol sy',
Byd ac eglwys sy'n galaru,
O waith in' golli'n cyfaill cu.

13 Bu fel Moses yn was ffyddlon,
Bu fel Aaron yn ei swydd,
Fel Elias bu mewn urddas,
Pawb a'i haddas barchai'n rhwydd;
Bu fel Paul yn teithio'r gwledydd,
Trwy bob tywydd lawer tro;
Er anwyled ydoedd genom,
Fe ddiangodd arnom, do.

14 C'add fel Enoch rodio'n hawddgar,
Mewn mawr ffafr gydâ Duw,
Ca'dd dystiolaeth, cyn ei symud,
'Cai mewn gwynfyd hefyd fyw;
D'wedodd iddo gaffael golwg
Digon amlwg, pan oedd glaf,
Ar ei anwyl Frenin Iesu;
Meddiannu'r wlad, 'r wy'n credu, caf.

15 Gall'sai atteb yn ddibryder,
Gydâ Phedr, ar y llawr,
Dair o weithiau, heb ei amau,
Ei fod yn caru Iesu mawr;
Cafodd orchwyl yn ei gorlan,
Bugail gwiwlan ffyddlawn cu;
Porthi'r wyn a chadw'r defaid,
Cynnal gweiniaid wnai tra bu.

16 Yn ngoleu'r difinyddion gwelai,
Chwiliai, yn ei gell, heb ball,
*Caryl*, *Henry*, *Pool*, a *Chradoc*,
A'r *Doctor Owen* enwog, call;
Fe eglurai y dammegion,
Treiddio i'r dirgelion wnai;
Darluniai Iesu ar Galfaria,
Nes b'ai'r dyrfa'n llawenhau.

17 Fel angel cryf yn hyf ehedodd,
Yn nghanol nefoedd, yn ei ddydd,
A'r efengyl fawr drag'wyddol
A gyhoeddodd ef, trwy ffydd;
Yn awyr iach yr ysgrythurau
Y byddai'n chwareu aden lon;
Ef yn bloeddio, a'i chwys yn treiglo,
A'r dyrfa'n wylo'n *braf* o'u bron.

18 Ca'dd bum' talent gan ei Arglwydd,
Marchnata'n hylwydd a wnaeth ef,
Pump yn 'chwaneg a ennillodd,
Yn ngwydd lluoedd dae'r a nef;
Gwas da ffyddlon yn ei ddiwrnod,
Dal y drych yn hynod wnaeth,
A'i Arglwydd a'i groesawai'n hyfryd;
O'i adfyd mewn i'r gwynfyd aeth.

19 Fe amgylchodd siroedd Cymru,
De' a Gogledd, lawer gwaith,
Bryste, Llundain wnaed yn llawen,
Pan oedd bron ar ben ei daith;
Hardd y safodd ar y muriau,
Yn eich cymanfa lawer awr,
At Iesu 'r oedd yn galw'n g'lonog,
Fe'i bloeddiai'n enwog Geidwad mawr.

20 Mawr ei ddefnydd ydoedd gartref,
Derbyniol yn ei ardal o'dd;
Yn y gyfeillach ddirgel, byddai
'N fanol olau, wrth ein bodd:
'R oedd â'i nerth yn erbyn pechod,
Bu â'i ddyrnod arno, gwn,
Mawr fygythion ysgrythurau
A gyhoeddai 'n erbyn hwn.

21 Canol llwybrau'r ysgrythurau
Oedd e'n gerdded ar bob cam,
Yn ei fywyd, a'i fasnachau,
A'r areithle, yn ddinam;
'R oedd e'n dad i'r rhai oedd ie'ngach,
'R oedd e'n gryfach yn mhob dawn;
'R oedd e'n cael blaenori'n foddlon;
Fe lanwai'i le yn dirion iawn,

22 'R oedd ef yn ddifinydd enwog,
Golau, bywiog, dewr, a doeth,
Yn ei gell y byddai'n ddiwyd,
Yn ei *bulpid* fel aur coeth;
A'r ei liniau, mewn erfyniau
A griddfanau, nos a dydd,
Am i'r Yspryd Glân lewyrchu
Wrth draddodi geiriau'r ffydd.

23 Yn ei gawell 'r oedd, yn gyson,
Saethau llymion, union nef,
Bwa cryf a llygad cywir,
Y nod yn sicr d'rawai ef;
Ar ei drosol 'r oedd grawn-sypiau,
Ar ei fwrdd 'r oedd seigiau llawn,
Lle b'ai miloedd mewn cymanfa,
Modd i wledda trwyddo cawn.

24 Pwy mor ddoeth, a phwy mor ddoniol,
Pa mor rasol ydoedd e'!
Pwy gair yn y cyrddau misol,
A'r *'Sociation* leinw ei le?
Ffordd y teithiodd, pwy a deithia
I' *Benmorfa* a *Thwrgwyn*,
*Aberteifi*, a *Blaenannerch*,
*Capel Drindod* gydâ hyn?

25 Pwy ofala mor ddiwallau,
Am y diadellau hyn?
Pwy wna ddattod eu cylymau!
Pwy saif ar adwyau'n dŷn?
Ar bob tymhor, ar bob tywydd,
Yn y llafur byddai'n llon;
Mae galaru mawr wrth gofio
'Fod wedi gadaw'r ddaear hon.

26 Ffarwel, *Morris*, un yw'r eglwys,
Yn y nef ac ar y llawr;
Ni cha'i 'th weled yma'n 'chwaneg,
Hyd pan gano'r udgorn mawr:
'R oedd hi'n dda tu yma i'r afon,
Mae hi yna'n llawer gwell;
Uwch y byd a'i ddyfroedd chwerw
'R wyt ti heddyw'n ddigon pell.

27 Mae dy ben yn gwisgo'r goron,
Mae dy galon heb un plâ,
Mae dy heddwch fel yr afon,
Mae dy dannau'n dynnion *bra'*;
'R wyt mor lân â'r angel glana'
Yn bur fel y dymunaist fod;
Nid oes hiraeth arnat heddy'
Am ein cwm'ni dan y rhod.

28 Ti ge'st balmwydd yn lle cleddau,
Ti ge'st goron yn lle croes,
Ti ge'st ddiwedd ar dy deithiau,
Ti ddiengaist uwch pob loes;
Mae dy delyn aur yn chwareu,
Mae dy dannau oll yn dyn;
Uwch eu rhif mae'th ryfeddodau,
Yn swn caniadau Sion fryn.

29 Ti ge'st *goncwest* ar bob gelyn,
Ti ge'st fyddin tan dy dro'd,
Ce'st dy gynnal yn y frwydr,
Er pob rhwystr dan y rhod;
Ce'st dy godi uwch gelynion,
Yn dra thirion uwch yr haul,
'R wyt fel Ioan yn dra chynes,
A'th ben ar fynwes Adda'r ail.

30 Nid oes gwmwl ar dy awyr,
Mae dy haul yn hyfryd glir,
Mae dy ddydd yn myned rhagddo;
Ti ge'st lanio'r hyfryd dir,
Ti ge'st afael ar yr hafan
A ddymunaist lawer awr;
Mae dy wledd heb ddalen chwerw,
Heddyw, 'n nhrag'wyddoldeb mawr.

31 Nid oes eisiau dae'r i sengi
Yn y wlad lle'r wyt ti'n byw,
Nid oes eisiau bara i'th borthi;
Iesu i ti'n bob peth yw;
'R wyt mor hardd fel nad oes eisiau
Gwisg i guddio'th noethni mwy,
Ond y lliain main cyfrodedd
Ga'w'd trwy rinwedd marwol glwy'.

32 Nid oes eisiau march na cherbyd,
I dy symud yma a thraw;
'R wyt, mor gyflym a'r goleuni,
Yn trafaelu'r byd a ddaw;
'R wyt, heb draed, yn gallu cerdded,
'R wyt yn gwel'd, heb lygaid pridd,
'R wyt yn gallu cyd-drafaelu
A'r angylion pen'' sydd.

33 'R wyt yn deall iaith angylion,
A duwiolion o bob gwlad;
'R wyt yn medru iaith *Pomare*,
Os yw yn nhrigfanau 'Nhad;
Medri siarad â hen Abra'm,
Isaac, Jacob, Job, a fu;
Soniaist lawer am eu henwau,
Tra 'r o'it yma gydâ ni.

34 Mi feddyliwn, wrth ei ganlyn,
Yn ei *goffin* tua'r bedd,
Gydâ'r miloedd o gwmpeini
Ydoedd yn eu galar wedd:
Dacw'r doniol wedi tewi,
Dacw'r dewr fu'n bloeddio'n hy,
Yn ei gerbyd, gydâ galar,
Yn myned tua'rddaear ddu.

35 *Mari*, *Mari*, paid âg wylo,
Gad och'neidio nos a dydd;
Er it' roddi'th Briod anwyl
I orwedd yn ei wely pridd:
Mae ei gorph yn huno'n dawel,
Yn ngrafel mynwent *Troed-yr-aur*,
A'i enaid fry yn hardd ar ddelw
Y Person mawr a'i enw, GAIR.

36 Cofia etto, er it' wylo,
Pwy sy'n llywio nef a llawr;
Fod rhagluniaeth a'i holwynion,
Yn troi 'nol cyson arfaeth fawr:
'R oedd ei ddyddiau wedi eu rhifo,
Ei amser wedi treulio'n llwyr;
Bore cododd, caled gweithiodd,
Cynar hunodd yn yr hwyr.

37 Awst pum'thegfed y diangodd,
*Morris* o'i gystuddiau caeth;
Awst yr unfed dydd ar hugain,
*Evans* idd ei ganlyn aeth;
Un fil, wyth cant, pump-ar-hugain,
Oedd y flwyddyn ryfedd hyn:
Pryd y derfydd galar Sion
'Waith y troion mawrion, syn!

38 Mai diweddaf y diangodd
*Edward William*, ffyddlawn frawd:
Yn ein byddin mae adwyau,
Bylchau yn ein rheng a wna'w'd;
Tri o gedyrn mawrion, enwog,
A rhai c'lonog yn eu dydd,
Yr un flwyddyn aeth i'r ddaear;
Mawr yw'r galar yma sydd.

39 Sïon, Sïon, beth a dd'wedaf
Yn y bwlch cyfyngaf hwn!
P'un ai'th anog i alaru
Neu i dewi wnaf, nis gwn;
Mae'r canwyllau mawr yn diffodd,
Ser y nef yn syrthio sydd;
Mae'n rhy dywyll i mi etto,
I broffwydo beth a fydd.

40 Y mae'r arfaeth fawr o'th ochr,
A hedd-gynghor o dy blaid,
Mae dy Dad, â'i glust, yn gwrando,
Dywed wrtho dy holl raid;
Anfon atto aml lythyr,
Am gael gweithwyr difefl, doeth;
Mae'r eiriolaeth fawr i'th bleidio,
Hyd nes elo'r byd yn boeth.

41 Ei blant anwyl sy'n galaru,
('R wy'n eich caru yn ddirith)
Rhodiwch yn ei lwybrau cyson,
Cewch fendithion rif y gwlith;
Cewch ei Dduw yn Dad trag'wyddol,
Cewch ei bobl yn bobl i chwi,
Cewch ei dy yn gartref hyfryd;
Mae'r addewid fawr o'ch tu.

42 Bu am ugain mlynedd helaeth.
Dwy ar bumtheg gydâ hyn,
Yn cyhoeddi'n ffyddlon, ddiwyd,
Yr Oen a laddwyd ar y bryn:
Aeth i gymanfa enwog Llundain,
Pan oedd bron ar ben ei daith;
Bu dri Saboth a rhai gweithiau,
'Nol d'od adref, yn y gwaith.

43 Yspryd Duw fo'n cyfarwyddo
'R ffordd i deithio yn y bla'n;
Yspryd gwylio a gweddïo
A ddisgyno ar fawr a mân;
Doed pob dyn i hun-ymwadiad,
Yspryd cariad ddelo i lawr;
Achos Iesu fyddo'n llwyddo,
Hyd pan gano'r udgorn mawr.

DIWEDD.

*Aberystwyth, Argraffwyd gan Esther Williams.*